USC Shoah Foundation | IWITNESS

JHASW/CHIDC

Taflen 2

# Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir

## *Kristallnacht* a Mesurau Gwrth-Iddewig

### *KRISTALLNACHT*

Cyfeirir at *Kristallnacht* fel 'Noson y Gwydr Toredig' ac roedd yn pogrom gwrth-Iddewig a ddigwyddodd ar 9-10 Tachwedd 1938. Mae'r enw'n tynnu sylw at y terfysg treisgar, a gefnogwyd gan y wladwriaeth, a ddigwyddodd ledled yr Almaen, Awstria , ac mewn ardaloedd o'r Sudetenland, Tsiecoslofacia.

Yn ystod y trais, llosgwyd synagogau ac ysbeiliwyd cartrefi a busnesau Iddewig. Amcangyfrifir bod ffenestri 7,500 o fusnesau wedi'u chwalu gan y Sturm Abeilung (mudiad parafilwrol Natsïaidd) a Ieuenctid Hitler. Cafodd mynwentydd Iddewig hefyd wedi'u halogi.

Roedd y terfysgwyr yn crwydro dinasoedd a threfi ac yn ymosod ar Iddewon yn y strydoedd. Cafodd 91 o bobl eu llofruddio.

Yn ystod yr wythnosau dilynol, cafodd bron i 30,000 o ddynion Iddewig eu casglu a'u hanfon i wersyll crynhoi Dachau.

Ffynhonnell

United States Holocaust Memorial Museum, *Bibliographies: Kristallnacht* <https://www.ushmm.org/collections/bibliography/kristallnacht> [cyrchwyd 10 Medi 2021]

### MESURAU GWRTH-IDDEWIG

Pan ddaeth y Natsïaid i rym ym 1933, yn araf bach cafodd Iddewon eu hamddifadu o'u hawliau.

Ni chaniatawyd i weithwyr proffesiynol wasanaethu yn y llywodraeth, ni chaniatawyd iddynt fod â swyddi cyhoeddus na'r hawl i fod â swyddi proffesiynol, fel meddygon neu gyfreithwyr, yn y sector preifat. Cafodd Iddewon eu hamddifadu o'u dinasyddiaeth, gan eu gwneud yn ddi-wladwriaeth. Cawsant eu gwahardd o brifysgolion a rhag gwasanaethu yn y fyddin. Ni chaniatawyd i feddygon Iddewig fod â chleifion nad oeddent yn Iddewon. Roedd yn rhaid datgan eu holl asedau i dalaith yr Almaen, gan gynnwys eu busnesau.

Nid oedd plant Iddewig yn cael mynychu ysgolion Almaenig a rhoddwyd mwy o ddeddfau ar waith i wahanu Iddewon oddi wrth gymdeithas yr Almaen. Nid oedd gan Iddewon hawl i fynychu theatrau, cyngherddau na sinemâu yn yr Almaen. Nid iedd ganddynt hyd yn oed yr hawl i fod â thrwydded yrru. Yn y pen draw, gorfodwyd Iddewon i wisgo Seren felen Dafydd, wedi'i gwnïo ar ddillad, i'w hadnabod fel rhai gwahanol i boblogaeth 'Ariaidd' yr Almaen.

Ffynhonnell

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Anti-Jewish Legislation in Pre-war Germany* <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/anti-jewish-legislation-in-prewar-germany?parent%3Den %252F11474> [cyrchwyd 10 Medi 2021]

European Commission

© 2022 Jewish History Association of South Wales / Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru

© 2022 USC Shoah Foundation